# Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion







Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board




Crynodeb a Fersiwn Hawdd ei Darllen








Mae ein Hasesiad o Lesiant Lleol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.




Mae'r Asesiad ar ein gwefan:

https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus-ceredigion/asesiad-ceredigion-o-lesiant-lleol/




Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol megis print mawr cysylltwch â:

Tîm Perfformiad ac Ymchwil,
Cyngor Sir Ceredigion,
Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UE

Ebost:performanceresearch@ceredigion.gov.uk

# Croeso i Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion




Ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw’r prif wasanaethau sy’n gweithio gyda chymunedau yng Ngheredigion. Yng Nghymru, mae angen inni gael gwybod am eich llesiant bob 5 mlynedd. Y ddogfen hon yw ein crynodeb o'r hyn rydym wedi'i ddarganfod y tro hwn. Rydym yn galw hyn yn Asesiad o Lesiant Lleol.





Cynhyrchwyd yr Asesiad o Lesiant Lleol hwn gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Pwrpas yr asesiad yw cael darlun o gyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol Ceredigion, nawr ac i’r dyfodol.




Pan fyddwn yn cynnal Asesiad o Lesiant Lleol rydym yn edrych ar wahanol fathau o lesiant. Mae’r rhain yn cynnwys sut mae arian yn edrych yng Ngheredigion (economaidd), sut rydyn ni'n rhyngweithio â'n gilydd (cymdeithasol), y gofod o'n cwmpas (amgylcheddol) a sut rydyn ni'n teimlo am ble rydyn ni'n byw (diwylliannol).




Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio’r hyn maent wedi’i ddarganfod i’w helpu i wneud cynllun ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sef y Cynllun Llesiant Lleol.

# Yr hyn Wnaethon ni ei Ganfod


## Dechreuadau Newydd

Mae **llesiant** yn golygu bod unigolyn yn hapus, yn iach ac yn gyffyrddus â'i fywyd a'r hyn mae’n ei wneud.

Buom yn edrych ar lesiant babanod newydd-anedig a’u teuluoedd yng Ngheredigion a dyma beth wnaethon ni ei ganfod:




- Mae costau byw yn codi, sy’n gwneud hi’n anoddach magu teulu.
- Mae costau byw yn golygu faint o arian sydd ei angen i dalu am y pethau sylfaenol mewn bywyd. Faint mae bwyd yn ei gostio, gwresogi’ch cartref, a thalu i fyw yn eich cartref (rhent neu forgais).





- Mae cyflogau yng Ngheredigion yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

# Plentyndod




- Mae **tlodi** plant yn uwch na chyfartaledd Cymru.

- Mae **tlodi** yn golygu nad oes gennych lawer o arian i'ch teulu fyw arno. Weithiau mae pobl mewn tlodi yn ei chael hi'n anodd talu am anghenion sylfaenol fel bwyd, dillad neu wres.




- Gall pobl sydd â swyddi ddal i fod mewn tlodi. Mae'r nifer hwn yn cynyddu yng Ngheredigion.


- Mae ysgolion yn rhagorol.





- Mae plant wir yn poeni am **newid hinsawdd.**

- Mae **newid hinsawdd** yn achosi'r byd i gynhesu ac yn golygu y bydd ein tywydd yn fwy eithafol yn y dyfodol.


# Ieuenctid




- Mae rhai pobl ifanc yn symud i ffwrdd ar gyfer gwaith a chyfleoedd cymdeithasol




- Mae pobl ifanc eisiau swyddi, tai fforddiadwy, a mynediad da i'r rhyngrwyd.




- Mae angen i'r ffordd rydym yn cysylltu â'r rhyngrwyd wella fel bod pob person ifanc yn gallu siarad â ffrindiau a theulu a defnyddio gwasanaethau ar-lein.




- Mae angen gwella trafnidiaeth gyhoeddus fel bod pobl ifanc yn gallu gweld ffrindiau a chymryd rhan yn eu cymuned. Mae pobl ifanc eisiau trafnidiaeth fforddiadwy sy’n cysylltu trefi â’i gilydd.








- Mae pobl ifanc yn poeni am **dipio anghyfreithlon** a cholli ardaloedd gwyrdd fel parciau.


- **Tipio anghyfreithlon** yw pan fydd rhywun yn dympio rhywbeth mawr, fel soffa neu fag du yn llawn sbwriel. Mae tipio anghyfreithlon yn torri'r gyfraith.




- Mae pobl ifanc eisiau i ailgylchu fod yn haws.




- Mae cael tai y gall pobl ifanc fforddio eu prynu yn bwysig iawn i'w llesiant.




- Weithiau mae'n anodd i bobl ifanc gael y swyddi maent eu heisiau yn eu hardal leol.


# Oedolion





- Mae dysgu Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg (fel darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg) yn bwysig iawn.





- Mae atal newid hinsawdd a’i effaith ar blanhigion, anifeiliaid a ninnau yn her fawr.
- Mae **llygredd** yn yr Afon Teifi yn bryder, a bydd yn effeithio ar faint o dai fydd yn cael eu hadeiladu ac ymhle.





- Gall afonydd gael eu **llygru** gan wrtaith, carthffosiaeth, gwastraff bwyd a chemegau, all fod yn wael i blanhigion a physgod yr afonydd.
- Mae angen mwy o dai fforddiadwy ac o ansawdd gwell. Mae oedolion eisiau mwy o gymorth i brynu eu cartref cyntaf.





- Tlodi yw un o'r heriau mwyaf i Geredigion.




- Mae oedolion eisiau mynediad gwell at wasanaethau gofal iechyd da (fel meddygon, deintyddion a'r ysbyty) i sicrhau eu llesiant.




- Un o'r heriau mawr yw denu busnesau newydd.




- Her fawr arall yw creu swyddi sy'n talu mwy.





- Her fawr arall yw helpu pobl ifanc i aros yng Ngheredigion.


# Pobl Hŷn





- Mae nifer y bobl sydd â **dementia** yn cynyddu.




- Mae **dementia** yn salwch a achosir gan niwed i ymennydd person. Gall hyn arwain at golli cof a phroblemau meddwl. Mae'n effeithio'n bennaf ar bobl hŷn dros 65 oed.





- I rai pobl hŷn mae costau uchel aros mewn cartref gofal yn gwneud hi'n anodd heb gymorth.




- Wrth i boblogaeth Ceredigion heneiddio, mae angen inni feddwl am sut y bydd ein meddygon, ysbytai a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn helpu'r rhai sydd angen gofal.

# Camau Nesaf




- Cymeradwywyd yr Asesiad o Lesiant Lleol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ym mis Mawrth 2022.




- Byddwn nawr yn gweithio ar y Cynllun Llesiant Lleol. Bydd y Cynllun yn dweud sut y byddwn yn gwella llesiant Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf.




- Yn ystod haf 2022 byddwn yn gofyn i chi beth rydych chi'n teimlo sy'n bwysig a beth ddylai fod yn y Cynllun Llesiant Lleol.




- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion:

  https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus-ceredigion/asesiad-ceredigion-o-lesiant-lleol/

*Diolchiadau:*
Easy Read Symbols Copyright Leeds and York Partnership NHS Foundation Trust.
Easy Read graphics designed using resources from Freepik.com.